# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 48 - Gaeaf 2022/3

# GOLYGYDDOL

Ew, roedd yn dda cael cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch unwaith eto nos Wener, Tachwedd y 4ydd. Dyma'r tro cyntaf inni ddod at ein gilydd ers cyn Covid, sydd dros 2½ mlynedd bellach - neu bron cyn 'cov' yn ôl un! Cafwyd cyflwyniad am adar a bywyd gwyllt Patagonia ar y noson, ac yna Cyfarfod Cyffredinol.

Roedd y cyfarfod yn unfrydol gytûn y dylsem ailgydio yn ein gweithgareddau arferol o ran teithiau, y wefan, cyhoeddi Llygad Barcud a chynnal ambell gyfarfod gyda'r nos. Yn sicr, ar Ragfyr y 10fed pan gynhaliwyd ein taith gyntaf ers cyn y clwy, roedd pethau'n galonogol ac yn argoeli'n dda. Daeth deg o selogion at ei gilydd ym Mhorthmadog ar y Sadwrn oer ond braf hwnnw, ac roedd pawb wedi mwynhau y dydd a'r paned wedyn yn arw.

Edrychwch ar y wefan am fanylion teithiau eraill, yn enwedig y daith i Martin Mere ym mis Chwefror. Taith fydd hon er cof am Dewi Jones, cyfaill annwyl a hwyliog bob amser, ac un o aelodau selocaf y Gymdeithas.

**Llun y clawr**: Alarch y gogledd ac alarch dof – Elfyn Lewis

**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams ac Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@gmail.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk

## Cynnwys:

Adar Patagonia (rhan 2) *Twm Elias* .......... 3

Adar a Chwedloniaeth (rhan 3) *Rhodri Dafydd* .......... 15

'Parchedig yr Adar' – *adolygiad Twm Elias* .......... 20

Taith yn ardal Porthmadog .......... 22

Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-Coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**
Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar
**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# Adar Patagonia (ii)



*Golygfa dros ran o dre'r Gaiman, efo Bryn Gwyn (enw addas) yn y pellter*

Roedd tre'r Gaiman a'r ardal o'i chwmpas yn lle da i adarydda. Digon o amrywiaeth o gynefinoedd o fewn cyrraedd hawdd ar droed, a'r rhan fwyaf o'r boreau yn rhydd imi grwydro tra bod Delyth y wraig, Rhiannon y ferch a'r ddau fach yn yr ysgol. Y cwestiwn bob bore oedd 'Lle'r a' i heddiw – i fyny ar y paith, oedd ond ryw 200 llath i fyny'r stryd, i lawr drwy'r dre a thros y bont i dir ffermydd llawr y dyffryn, neu drwy'r strydoedd cefn ac ar hyd y ffordd gerrig at faes pêl-droed clwb y dre? Pob un o'r rhain ag amrywiaeth dda o gynefinoedd a dewis da o wahanol lwybrau.

Tymor yr hydref a'r gaeaf deheuol oedd hi pan oeddem ni yno (dechrau Mawrth hyd ddechrau Gorffennaf eleni), oedd efallai ddim cystal â'r gwanwyn i adarydda. Gweddol brin felly oedd caneuon ac ymddygiad tiriogaethol, a llawer o adar ddim yn eu dillad bridio gorau chwaith. Roedd heidiau cymysg o a.b.b. (adar bach brown) yn symud rhwng llwyni'r paith ac yn anodd cael lluniau ohonynt. Hefyd, erbyn tua canol Mawrth, prin oedd yr ymfudwyr ddeuai yma o'r gogledd i nythu. Er enghraifft, dim ond un wennol welais i, allan o ryw 5 gwahanol fath welir yma rhwng Awst a Mawrth, a honno yn hedfan yn rhy uchel imi fedru nabod pa fath.

Ond rhaid imi beidio cwyno! Roedd y profiadau adaryddol ges i yma yn

werth chweil. Ac o leiaf, roeddwn yno i groesawu rhai o ymwelwyr y gaeaf – sef yr heidiau enfawr o wyddau Magellan *(Chloephaga picta)* ddaeth i orchuddio rhai o gaeau llawr y dyffryn ym Mai a Mehefin, a'r gwyddau penllwyd *(Chloephaga poliocephala)* yn ardal Trevelin yn yr Andes.

**Adar ysglyfaethus**

Un rheswm pam fod adar bach y paith yn cadw i'r llwyni, ac yn dueddol o fod yn swil, yw fod amryw o wahanol fathau o adar ysglyfaethus o gwmpas. Y caracara tsimango *(Milvago chimango)* a grybwyllais yn y rhifyn d'wytha o *Llygad Barcud* (rhif 47) oedd fwyaf cyffredin. Fe welais sawl haid o'r rhain, hyd at 120 o adar ar y tir amaethyddol yn hela sboncod gwair pan oedd y tir yn cael ei ddyfrio, neu yn gwledda ar gelanedd dafad a'i llnau at yr asgwrn, a rhai yn dal adar to yn y dref.



*Y tsimango yn Llain Las*

Un sy'n arbenigo ar gelanedd yw'r fwltur pengoch *(Cathartes aura)*. Dyma aderyn mawr adain-lydan sy'n cylchu'n osgeiddig dros y tir. Mae ffermwyr yn hapus i'w gael am fod nifer o'r rhain yn medru clirio corff dafad mewn fawr o dro, gan gadw'r tir yn iach a glân – does dim angen mynd i drafferth a chostau i waredu'r burgyn fel yng Nghymru.



*Fwltur pengoch (llun Mariel Bonavía)*

Maent yn nythu ar glogwyni uchel y Lle Cul ar y ffordd i Dolavon. Y rhain welir mewn ffilmiau cowbois gorllewin gwyllt gogledd America yn troelli uwchben corff ryw druan gafodd ei saethu gan y dynion drwg.

Ceir sawl math o farcutiaid a gweilch yn hela ar y paith agored (eu gweld o'r car, ond dim llun); dau fath o hebog (y tramor a'r aplomado) yn hela colomennod ar glogwyni ochrau'r dyffryn, a chudyll coch America sy'n llai na'r un Cymreig ac yn fwy lliwgar.



*Hebog aplomado yn fwy cochaidd na'r tramor*



*Cudyll coch America bychan*

**Yn y dref**

Heblaw am y deryn to Ewropeaidd a'r cantor *(Mimus saturnius)* a grybwyllais yn *Llygad Barcud* 47, aderyn arall gweddol gyffredin yn y dref oedd y pobydd coch neu'r hornero *(Furnarius rufus)*. Hwn yw aderyn cenedlaethol yr Ariannin ac un o'i arferion amlycaf yw ei ddull o godi nyth - nyth o fwd ar ffurf cragen malwen ar gangen coeden. Roedd rhai ar amryw o'r coed pinwydd aeddfed ar ochrau strydoedd y Gaiman. Ei enw, y pobydd coch, hornero a *Furnarius* am fod ei nyth mor debyg i'r popty crwn traddodiadol ddefnyddid gan yr Archentwyr i bobi bara.



Yr hornero



Nyth ar goeden ar ochr y stryd

Hen bopty bara traddodiadol yn ardal Bryn Crwn



Yn ogystal â’r c’lomennod lled ddof oedd yn gyffredin yma, roedd sawl math o durtur. Un oedd y durtur glustiog *(Zenaida auriculata)* sy’n debyg o ran maint a lliw i’n turtur dorchog ni, gyda marc du bychan naill ochr i’w phen. Un arall yw’r durtur picui *(Columbina picui)* sydd yn un fechan iawn, tua maint bronfraith.

O gwmpas afon Camwy, sy’n rhedeg drwy ganol y dref, yr aderyn





Y durtur glustiog

Dwy durtur picui fechan gysglyd ar wifren

mwyaf trawiadol yw y ciscadî mawr *(Pitangus sulphuratus)* neu y 'bol melyn' fel mae'r gwladfawyr yn ei alw. Galwad uchel a thrawiadol, ond yn gwrthod yn lân imi ddod yn ddigon agos i gael llun. Trio a thrio dros dri mis a mwy i gael llun call, a dim ond llwyddo yn y diwedd ar ymweliad â Llyn Chiquichano ynghanol Trelew, lle mae'r adar wedi arfer yn well efo pobol.



*Y bol melyn yn Nhrelew*

**Llawr y dyffryn**

Aderyn trawiadol ar lwyni llawr y dyffryn oedd yr ehedydd maes cynffon-hir *(Saturnella loyca)*, neu y 'Robin goch' i Gymry Patagonia. Mae'n gantor reit dda ac yn llawer iawn haws na'r bol melyn i gael llun ohono.

Rhyw hanner milltir o'r dref ar dir agored ger ffordd Dolavon, roeddwn wrth fy modd pan glywais gri rybudd fer y dylluan dyrchu *(Athene cunicularia).* A dacw nhw, pâr ohonynt yn sefyll ger hen dwll dulog (neu armadillo) yn bobian eu pennau o ochr i ochr ac i fyny ac i lawr, yn union fel ein dylluan fach ni adra.



*Pâr o dylluanod tyrchol*

Cymeriadau go iawn, a bu imi alw heibio sawl gwaith am eu bod mor ddoniol.

Adar eraill gwerth eu gweld oedd yr heidiau o'r aderyn gwartheg gloyw *(Molothrus bonariensis)* oedd yn sgleinio'n hyfryd yn yr haul.



Robin goch

Tro arall oedd dilyn y ffordd ddi-darmac o ben draw'r dref at gae'r clwb pêl-droed. Amryw o adar difyr yma, yn cynnwys sofliar Califfornia *(Callipepla californica)*. Fe adnabyddais hon yn syth o raglenni natur ar y teli-bocs, efo'r bluen ddoniol yna yn sticio allan o dalcen y ceiliog. Adar wedi eu cyflwyno i'r Ariannin yw'r rhain, ac yn dal i ymledu'n raddol.



Adar gwartheg gloyw, yr ieir a'r cywion yn frown tywyll

Ond heb os, yr uchafbwynt oedd cyfarfod yr ibis gyddfddu *(Theri-sticus melanopsis)* mawr. Mae hwn yn enfawr, tua medr o dal, a phan ddois i i'w olwg o du ôl i lwyni ac o fewn ryw 15 troedfedd iddo, wnaeth o ddim ond ryw chwyrnu'n fygythiol arna'i, a dal ymlaen i chwilio am bryfetach yn y gwair. Yn y tymor nythu, mae gan hwn dagell ddu amlwg, fel tagell ein ceiliog buarth ni, a hynny sy'n rhoi ei enw iddo.

Braidd yn anodd oedd cael lluniau o chwiaid. Braidd yn brin oedden nhw beth bynnag, ac yn eithriadol o swil. Er imi sleifio'n ofalus iawn hyd



Yr ibis gyddfddu

ymyl un o’r camlesi ar lawr y dyffryn i geisio cael llun chwiwellod Magellan *(Anas sibilatrix)*, dim ond eu tinau gefais i!



Chwiwellod Magellan braidd yn swil



Ceiliog sofliar Califfornia
efo tusw ar ei dalcen

**Llyn Chicuichano**

Am fod trafnidiaeth gyhoeddus yn effeithiol iawn ac yn rhad iawn yn y dyffryn, roedd yn syniad da mynd am y diwrnod i Drelew. Yma ynghanol y dref, mae llyn mawr gafodd ei enwi ar ôl un o benaethiaid brodorol y Tehuelche. Mae llwybr hyfryd o'i gwmpas, ac mi welwch amrywiaeth dda o adar arno.



*Elyrch coscobora, wedi eu henwi am eu galwad: 'cos-co-bora'*

Roedd criw bychan o fflamingos *(Phoenicopterus chilensis)* yn dal yma, heb ymfudo eto, ibis wynepwyn *(Plegadis chihi)*, ac elyrch coscobora *(Coscobora coscobora)* sy'n fwy tebyg i wyddau gwynion nag elyrch, mewn gwirionedd. A dau fath o wyach: yr ariannaidd *(Podiceps occipitalis)* a'r gribwen *(Rollandia rolland)* - a'r rhain, fel y gwyachod bychain, yn dueddol o blymio ar yr union eiliad 'dach chi'n pwyso botwm y camera!



*Gwyach ariannaidd*



Gwyach gribwen

Roedd dau fath o chwiaid ar y llyn. Un oedd chwadan biglas yr Ariannin *(Oxyuria vittata)*, sy'n hynod o debyg i'r chwadan goch *(O jamaicensis)* o ogledd America a welid yng Nghymru tan yn ddiweddar, cyn iddi gael ei difa oherwydd ei bod yn peryglu bodolaeth y chwadan benwen *(O leucocephala)*, sef y fersiwn Ewropeaidd brin o'r teulu. Y math arall oedd chwadan lydanbig de America *(Anas platalea)* sy'n eitha llwydaidd o ran ei lliw, a'r pig yn debyg iawn i'n chwadan lydanbig ni. Ond fel y soniais gynnau, chydig o wahanol chwiaid welais i yn ystod y pedwar mis, a rheiny yn dueddol o ffoi cyn dod o fewn cyrraedd i'r camera bach.



Brych Magellan

Heb fod nepell o'r llyn, mae parc cyhoeddus llawn coed, lle'r oedd yn bosib cael lluniau o sawl aelod o deulu'r bronfreithod, yn cynnwys brych Magellan *(Turdus falklandii),* ac un arall, eithriadol o debyg i'n

deryn du ni, sef y brych tsiguianco *(Turdus chiguianco)*.



Y brych tsiguanco

**Yr arfordir**

Roeddem yn lwcus iawn o ffrindiau da yma oedd yn barod iawn i fynd â ni ar deithiau drwy'r ardal. Buom efo Hector MacDonald a'i deulu i weld y morlewod yn aber afon Camwy, a'r annwyl Edith MacDonald o gwmpas y Capeli; teithiau efo'r teulu Kennedy i Punta Tombo i weld y pengwiniaid (gweler *Llygad Barcud* 47) ac i Benrhyn Valdez i weld y morfilod. Mil diolch hefyd i Yfon Owen am ddiwrnod difyr ar y traeth yn Isla de Escondida, ac am daith hyfryd i fyny'r dyffryn cyn belled â Thir Halen. Diolch hefyd am gael benthyg amryw o lyfrau defnyddiol iawn i nabod adar ganddi hi a Mariel Bonavía. Mariel yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg y Gaiman, ac yn ffotograffydd bywyd gwyllt penigamp.

Rhai o'r uchafbwyntiau adaryddol ar yr arfordir oedd: yr wyach fawr *(Podiceps major)* sy'n anferth ac yn gyffredin hyd y glannau; pedair math o fulfran; tair math o bioden fôr (dwy ddu a gwyn oedd yn debyg iawn i rai Cymru, a'r drydedd, oedd yn uchel ar fy rhestr o adar i'w gweld tra 'mod i yma, yn ddu). Dim ond dwy fath o wylan, oedd hefyd yn dod i mewn i'r tir cyn belled â'r Gaiman, sef gwylan y de *(Larus dominicanus)* sy'n debyg iawn i'n gwylan gefnddu leiaf ni o ran maint ond â chefn du, a'r wylan



Gwyach fawr, sy'n anferth



Braidd yn bell, ond dwy bioden for dywyll (Haematopus ater)



*Mulfran lygatlas (Phalacrocorax atriceps) yn gorffwyso ar draeth Playa Union*

benfrown *(Chroicocephalus maculipennis)*, sy'n cyfateb o ran maint a phatrwm i'n gwylan benddu ni.

Roedd sawl math o rydyddion bychain, yn cynnwys un prin, sef pibydd Magellan *(Pluvianellus socialis)*. Dim ond ryw 5-7,000 o'r rhain sydd yn y byd, yn nythu yn ne eithaf Patagonia a Tierra del Fuego, ac yn symud i arfordir gogledd yr Ariannin dros y gaeaf. Un bach llwyd golau oedd o, efo coesau cochion ar ben ei hun, ymysg haid gymysg o rydyddion bychain eraill.

**Am dro i'r Andes**

Diolch i Bili a Gladys Hughes, cawsom drip i Gwm Hyfryd am benwythnos estynedig, a chael croeso mawr yno gan Alwen Green. Roeddwn yn nabod ei thad, Fred Green, a ddaeth i Gymru sawl gwaith yn y 1970$^{au}$-80$^{au}$. Bu i fy chwaer Marian helpu Fred i gyhoeddi ei atgofion, *Pethau Patagonia*, a bu i minnau ei berswadio i gynnwys pennod ar fywyd gwyllt yr ardal, sy'n grynodeb gwerthfawr i'r sawl sydd â diddordeb.



*Pibydd Magellan*



*Un o'r ddau gondor pell a welwyd*

Cyn cyrraedd Esquel, bu inni alw heibio estancia Gwyndy ar y paith, hen gartref Bili, ac sydd dan ofal ei frawd Vernon ar hyn o bryd. Roeddem o fewn golwg i gopaon gwyn yr Andes, a'r peth nesa: 'Be ydi'r rhai'cw yn uchel yn yr awyr?' Ac o roi'r gwydrau arnyn nhw – dau gondor! Doeddwn i ddim wedi disgwyl gweld y rhain am eu bod yn eithriadol o brin, ond o ddeall, yn dilyn ymgyrch gref i'w gwarchod, maent wedi cynyddu, ymledu a dod yn llawer mwy cyffredin erbyn hyn.

Cawsom daith hyfryd ar y dydd Sul yng nghwmni Gwion Elis-Williams, hogyn o Fethesda a fu yn Nhrevelin ers tua 8 mlynedd bellach, yn gweithio ar brosiectau i'r Parc Cenedlaethol gerllaw. Roedd braidd yn rhy niwlog i weld gogoniant y mynyddoedd, ond roeddwn yn falch iawn o ddod ar draws amryw o adar newydd, yn cynnwys yr eryr bronddu *(Geranoaetus melanoleucus)*, ac un o'r adar yr oeddwn wedi gwir obeithio cael llun ohono, sef y caracara mawr *(Caracara plancus)*. Roeddwn wedi cael cip ar hwn ryw ddwy neu dair gwaith yn nyffryn Camwy, yn rhodio'r ddaear yn chwilio am drychfilod, ond o bell bob tro wrth deithio mewn car. Yma yn yr Andes, mae yn fwy cyffredin, ac yn glamp o dderyn, bron cymaint ag eryr.



*Y caracara mawr*

Do, cawsom brofiad gwych a chroeso anhygoel ym Mhatagonia bell. Ardal wahanol iawn i Gymru werdd lawog, a'r cynefinoedd a'r bywyd gwyllt eto mor wahanol. Rhwng Dyffryn Camwy, y paith, a'r Andes, fe ddywedwn fod amrywiaeth ryfeddol o adar a bywyd gwyllt i'w gweld yma, ond, yn naturiol, mae angen amser i wneud cyfiawnder â'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig. Bythgofiadwy yw'r gair ddaw i'r meddwl. Felly, os cewch gyfle, neidiwch amdano.

**Twm Elias**

# Adar a Chwedloniaeth (Rhan 3)

**Adar Goruwchnaturiol**

Soniwyd eisoes (gw. *Llygad Barcud 46*) am bwysigrwydd ysbrydol 'adar y byd arall' yn y traddodiad Celtaidd ac yn chwedloniaeth a chrefyddau ar draws y byd.

Ymysg chwedlau Cymru, mae rhai o'r adar hudol hyn yn ymddangos fel 'Adar Rhiannon' fyddai'n gallu anfon unigolion i lesmair ac atgyfodi'r meirw gyda'u cân. Maent yn ymddangos sawl gwaith yn y Mabinogi. Yn chwedl Culhwch ac Olwen, fe'u disgrifir fel *'…y rhai a ddeffry'r meirw a suo'r byw i gwsg.'* (Williams 1911). Yng nghainc Branwen Ferch Llyr, pan fo cyfeillion Bendigeidfran yn dychwelyd ar ôl brwydro yn Iwerddon, maent yn clywed cân Adar Rhiannon, ac o ganlyniad, maent yn syrthio i drwmgwsg am saith mlynedd yn Harlech, cyn deffro a pharhau â'u taith i Sir Benfro.

Tybir bod y stori hon yn fersiwn o'r 'fyth paradwys' sy'n perthyn i nifer fawr o ddiwylliannau, a bod adar hudol â chysylltiad agos a bywyd wedi marwolaeth. Dyma gred gyffredin yng nghrefyddau hynafol y Dwyrain Canol, ac sydd i'w gweld hyd yn oed yn y Beibl lle gwelwn gysylltiad rhwng y Nefoedd a bodau adeiniog, sef yr Angylion.



*Llun: Simon Wantling (Google Images)*

**Yr aderyn corff**

Yng Nghymru, parhaodd y cyswllt rhwng aderyn a marwolaeth hyd yn ddiweddar iawn ar ffurf y goel am yr 'Aderyn Corff'. Byddai'r aderyn corff yn curo'i adenydd ac yn pigo ar wydr ffenest ystafell person claf, ac o ganlyniad, byddai'r person hwnnw yn marw. Ceir hanesyn o Geredigion am aderyn corff yn sgrechian wrth hedfan i mewn i dŷ ac yn achosi marwolaeth person

claf (Jones 1930).

Mae rhai adroddiadau yn ei ddisgrifio fel aderyn bychan llwyd (Davies 1911), ond dywed eraill mai aderyn di-blu heb adenydd ydoedd (Jones 1930). Disgrifiad arall ohono yw aderyn bach du yr un maint â drudwy, gyda llygaid treiddgar a'r rheiny'n allyrru pelydrau (Isaac 1938), ac mae un ffynhonnell yn ei ddisgrifio fel *'an eerie white bird, of no known species'* (Simpson 1976).

Er hyn, y dylluan wen sy'n 'aderyn corff' i lawer o bobl, ac mae hynny yn ddealladwy wrth ystyried perthynas y dylluan â nos, tywyllwch a marwolaeth. Wedi'r cyfan, onid yw hi'n aml yn nythu yn nhŵr eglwys ac yn hela yn y fynwent? A phetai unrhyw un yn gweld tylluan wen â'i hwyneb dynol yn hedfan yn dawel ac urddasol, mae'n hawdd deall sut y'i gwelid fel ysbryd.

**Teulu'r Frân**

Aderyn arall a gysylltid â marwolaeth ag anlwc oedd y frân. Fel yn Oes y Celtiaid, parhaodd y goel tan yn ddiweddar fod gan y frân gyswllt â marwolaeth, yn enwedig y gigfran. Mae sail fiolegol i hyn am fod synnwyr arogli miniog y gigfran, wrth chwilio am gelanedd, yn galluogi iddi ogleuo corff ar drengi o bellter (*Standard Dictionary of Folklore, Myth and Legend, 1950)*. Celanedd yw ei phrif fwyd, ac yn nyddiau'r Celtiaid, dywedir bod cigfrain ac eryrod yn dod i wledda ar gyrff y meirwon yn dilyn brwydr.



*Cigfran*

Yng Nghymru, anlwc ddeuai o weld brân ar y llaw chwith. Efallai fod hyn yn dilyn traddodiad y Rhufeiniaid, gan na fyddai unrhyw gadfridog Rhufeinig yn mynd i ysgarmes petai wedi gweld cigfran neu frain yn hedfan ar yr ochr chwith iddo (Armstrong 1958).

Yn ôl traddodiad rhai gwledydd Celtaidd, byddai nythod cigfrain yn cael eu llosgi ar adeg arbennig o'r flwyddyn, sef Calan Gaeaf.

> *'The dying of the year (Samhain, Hydref 31ain) … when the malignant dead in the shape of birds had to be placated, and when the raven god had to be destroyed by fire and sacrifice, if the land were not to be devastated by evil spirits.'* (Burl 1981)

Mae yna adroddiadau am hyn yn digwydd yng ngogledd Môn, pan geisiodd y pregethwr John Elias o Fôn atal yr arfer am ei fod yn arferiad paganaidd. Ond mynnu eu ffordd wnaeth y trigolion, a chafodd John Elias ei bledu â thyweirch. Symboliaeth y llosgi oedd fod difa'r nythod, a gwneud lle i adeiladu nythod newydd, yn arwyddo gwell cnwd a chynhaeaf y flwyddyn ddilynol.

Roedd hen gred yn cysylltu niferoedd y brain a welid gan unigolyn â'i lwc. O weld un frân – anlwc. O weld tair brân – y diafol yn ymweld. (Armstrong 1958). Ond – '*Dwy frân ddu, lwc dda i mi'* (Lewis 1995).

Ceir yr un ystyriaethau yn Lloegr ynglŷn â phiod: er enghraifft, yn y pennill poblogaidd *'one for sorrow, two for joy'.* Yng Nghymru, prin yw'r cyfeiriadau at y bioden ar wahân i'r dywediad *'Piogen wen, pigen ddu / Lwc dda i mi* (Owen 1887). Credid hefyd y byddai gweld pioden ar gefn dafad neu fuwch ar ddechrau'r gaeaf yn golygu y byddai'r creadur farw cyn y gwanwyn, tra bod gweld pioden ar gefn yr anifail yn y gwanwyn yn golygu anifail iach a llwyddiant i'r ffermwr cyn diwedd yr haf (Lewis 1995). Mae'n debyg bod y gred hon yn seiliedig ar y ffaith fod y bioden yn pigo parasitiaid a allai ddifetha ansawdd y gwlân yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Byddai lladd brain fyddai'n nythu ger cartref rhywun yn dod ag anlwc, fel y byddai difa nyth gwennol a godwyd dan fondo'r tŷ. A phetai ydfrain yn peidio â nythu ger cartref rhywun ar ôl nythu yno ers blynyddoedd, byddai hynny eto yn golygu anlwc (Isaac 1938).

**Adar Duw**

Er fod rhai adar yn cael eu hystyried yn greaduriaid anfad, roedd eraill yn cael eu hystyried yn 'adar Duw'. Un o'r adar hynny yw'r dryw, ac fel mae'r hen ddywediad yn rhybuddio: *'Y sawl a dorro nyth y dryw, ni chaiff weled wyneb Duw'.* Mae'r dywediad yn debyg iawn i'r un a ddaw o Gernyw:

> *He who hunts the robin or the wren, shall never prosper, boy or man.*
> *(Jones 1996)*

Roedd y dryw yn aderyn pwysig yn nyddiau'r Celtiaid, ac arhosodd felly hyd heddiw. Ond er fod parch cyffredinol ato, byddai'n arferiad *'hela'r dryw'* ar ddydd Sant Steffan, pryd y byddai bechgyn yr ardal am y gorau'n ceisio dal 'brenin yr adar' a'i gario o dŷ i dŷ i wasaela. Tybia rhai fod sail 'Gristnogol' i hyn am i'r dryw ddatgelu cuddfan Sant Steffan i'r Rhufeiniaid gyda'i gân.

Mae straeon eraill yn dangos dylanwad Cristnogol wrth egluro pam fod gan y robin a'r wennol fron goch. Gwaed yr Iesu a syrthiodd arnynt wrth i'r adar geisio tynnu pigau'r drain o ben yr Iesu pan oedd ar y groes (Armstrong 1958).



*Y dryw - brenin yr adar*

Diddorol yw nodi nad yw'r robin yn garedig a heddychlon, nac yn dangos fawr ddim o'r rhinweddau a ddisgwylir gan Gristion. Dangosodd astudiaethau David Flack (1958) fod y robin yn aderyn gardd tiriogaethol, ymosodol a chreulon.



*Robin yn ymosod ar robin wedi ei stwffio*
*Llun: Ted Breeze Jones*

**Diweddglo**

Yn anffodus, collwyd llawer o'n dywediadau a'n credoau traddodiadol yn y Gymru gyfoes oherwydd y newidiadau a ddigwyddodd i gymdeithas. Fel y rhan fwyaf o gymunedau ledled y

byd, mae ein hunaniaeth yn cael ei erydu'n raddol dan ddylanwad y diwylliant 'Gorllewinol', Anglo-Americanaidd sydd bellach yn creu unffurfiaeth fyd-eang. Rydym hefyd yn llawer mwy dinesig bellach yn ein hagweddau a'n ffordd o fyw, ac mae hynny'n golygu colli ein cysylltiad â byd natur a chefn gwlad, ac amryw o'r arferion a'r traddodiadau cysylltiedig.

Fel y ceisiwyd dangos yn y traethawd hwn, mae gwybodaeth helaeth ac efallai ddoethineb i'w canfod yn yr hen ffynonellau. Mae pwysigrwydd a symboliaeth adar yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent yn y gorffennol, dim ond inni eu hystyried yn y golau cywir. Mae bywyd modern wedi culhau a chrebachu ein gweledigaeth. Byddai ein cyndadau'n teimlo ac yn credu, ond heddiw, mae'n rhaid i ni wrth brofiadau diffiniol cyn y medrwn gredu.

> *'to limit thoughts only to man simplifies life and morals, if not logic'*
> *(Vetter 1958)*

Fe ddylem ailddechrau synnu a rhyfeddu, a dychwelyd at yr hud oedd ym myd natur i ni'n blant. Mae datblygiad technoleg wedi cyfoethogi'n bywydau mewn sawl cyfeiriad, ond mae hefyd wedi ein hamddifadu o'r elfen ysbrydol a unai ein cyndadau â'r byd natur yr oeddynt yn fwy rhan ohono.

Mae'n bryd hefyd i'r byd Gorllewinol ailystyried yr hyn a adroddir yn Llyfr Genesis am y greadigaeth:

> *'a Duw a ddywedodd wrthynt… Arglwyddiaethwch ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar bob peth byw a ymsymudo ar y ddaear'*
> *(Genesis 1, 28)*

Does dim amheuaeth bod hyn wedi mennu ar ein hamgyffrediad ni o fywyd gwyllt y ddaear. Yn gyffredinol, mae'r byd gorllewinol yn edrych ar fywyd gwyllt fel bywyd sy'n israddol i ddyn, ac yn ei ecsbloetio. Efallai mai dyna pam bod byd natur yn wynebu cynifer o broblemau heddiw.

Yn gwrthgyferbynnu â hyn, mae llawer o grefyddau dwyreiniol, megis Bwdïaeth, yn gosod popeth byw yn gyfartal (Eliade 1960). Mae adar a phopeth byw yn golygu llawer mwy o fewn y crefyddau hyn, ac yn hawlio llawer mwy o barch.

Mae ein difaterwch ni yng Nghymru wedi golygu bod y gigfran wedi ei halltudio i'r tiroedd uchel; a lleihau mae niferoedd ein hadar cân. Mae'r

eryr wedi diflannu yn gyfan gwbl. Pa obaith sydd i genedlaethau'r dyfodol ddeall ac uniaethu â'r hen chwedlau a'r hen draddodiadau pan fo gwrthrychau'r chwedlau hynny yn gwbl ddieithr iddynt?

**Rhodri Dafydd**

**Llyfryddiaeth**


Armstrong, E. (1958), *The Folklore of Birds,* Rhif 39, cyfres New Naturalist

Burl, A. (1981), *Rites of the Gods*

Davies, J.C. (1911), *Folk-lore of West and Mid Wales*

Eliade, M. (1960), *Myths, Dreams and Mysteries – The Encounter between Contemporary Faiths and Archaic Realities*

Isaac, E, (1938), *Coelion Cymru*

Jones, E.J. (1780), *A relation to the apparition of Spirits in Monmouthshire and Wales*, yn Jones, T.G. (1930), *Welsh Folklore and Folk Custom*

Jones, T. Ll. (1996), *Hen Gof*

Lack D. (1943), *The Life of the Robin*

Lewis, D.E. (1995), Y Gog, *Llafar Gwlad 48*

Owen, E. (1887), *Welsh Folk Lore*, Ail-argraffwyd 1996


Simpson, J. (1976), *The Folklore of the Welsh Border*

Vetter, G.B. (1958), *Magic and Religion – Their Psychological Nature, Origin and Function*

Williams, I. (1911), *Pedeir Keinc y Mabinogi*


## Adolygiad: Parchedig yr Adar
## Taith y Parch Harri Williams i fyd yr adar

Prin iawn yw'r gweinidogion Anghydffurfiol a gyhoeddodd waith y tu allan i'r meysydd crefyddol a llenyddol – yn enwedig ar bynciau fel byd natur. Nid oherwydd diffyg diddordeb, oherwydd gellir cyfeirio at sawl gweinidog yr Efengyl oedd neu sy'n ymddiddori mewn bywyd gwyllt ac yn gwerthfawrogi harddwch, mawredd ac amrywiaeth y greadigaeth.




*Trawsgrifiad Catrin Evans*
*Golygydd Duncan Brown*
*Cyhoeddiad Cymd.Edward Llwyd*
*(2022). Pris £5.00, 60 tud.*

Ar y llaw arall, bu i lawer o offeiriaid eglwysig amlygu eu diddordebau yn y cyfeiriad hwn dros y ddwy neu dair canrif ddiwethaf. Gwnaeth amryw ohonynt gyfraniad eithriadol o werthfawr i'r astudiaeth o adar,

gwyfynod, botaneg, archaeoleg a llên gwerin.

Dyma rai o'r offeiriaid sydd fwyaf adnabyddus i ni yng Nghymru am eu diddordebau yn y meysydd hyn:

***Gilbert White*** (18g), Selbourne – dyddiaduron a llythyrau. Bu'n gohebu llawer â'r naturiaethwr o Gymro, Thomas Pennant.

***Richard Farrington*** (18g) – cofnodwr safleoedd archaeolegol yn ardal Uwchgwyrfai.

***Huw Davies*** – awdur *Welsh Botanology* (1810) sy'n rhestru planhigion Ynys Môn ac yn nod eu henwau Cymraeg

***Elias Owen***, awdur *Welsh Folk-lore* (1887)

***J Ceredig Davies***, awdur *Folk-lore of West and Mid-Wales* (1911)

***RS Thomas*** – fu'n gofnodydd adar dros Sir Gaernarfon am gyfnod, yn hanner olaf yr 20fed ganrif.

Ambell sinig yn dweud bod gan y rhain ddigon o amser ar eu dwylo i ddilyn eu diddordebau, am mai dim ond ar y Sul ac mewn ambell angladd, bedydd a phriodas yr oeddent yn gweithio!

Roedd y sefyllfa'n wahanol iawn ymysg gweinidogion Anghydffurfiol oedd yn llawer mwy atebol i'w cynulleidfa. Disgwylid iddynt fugeilio aelodau eu capeli, yn hytrach na 'gwastraffu eu hamser' efo ryw adar a phethau felly!

Anodd dweud a oedd yn fwriad gan y Parch Harri Williams gyhoeddi ei nodiadau a'i gofnodion adaryddol, ond maent yn sicr yn haeddu gweld golau dydd, ar sail ei ddiddordeb angerddol yn y pwnc, a'i ddawn ysgrifennu. Roedd o'n awdur toreithiog – 17 o lyfrau: nofelau, llyfrau teithio a chyfrolau ar bynciau crefyddol a llenyddol, yn bennaf. Mae ei ddiddordeb ym myd natur yn britho rhai o'r cyfrolau hyn, ac mae gan un ohonynt ogwydd naturiaethol amlwg, sef *Duw, Daeareg a Darwin* (1979).

Enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1978 am hunangofiant dychmygol yr athronydd o Ddenmarc, Soren Kierkegaard.

Mae'r erthyglau yn y gyfrol *Parchedig yr Adar* yn llawn gwybodaeth ddifyr - llawer ohonynt yn deillio o'i brofiadau ei hun a'r pethau y rhyfeddodd atynt yng ngweithiau rhai o awduron clasurol ei gyfnod. Mae'r erthyglau hefyd yn ddrych o'r cyfnod y cawsant eu hysgrifennu, sef y 1950$^{au}$-60$^{au}$ yn bennaf.

Mae'r gyfrol yn olrhain sut y datblygodd diddordeb Harri Williams

mewn adar, ac yn disgrifio rhai o'i brofiadau, yn enwedig y wefr o ddod ar draws adar newydd. Mae'n ymddiddori yn ymddygiad, hanes, caneuon, ymfudiad, ecoleg a chystadleuaeth ymysg adar, gan gydnabod dylanwad arloesol cyfrolau megis *The Life of the Robin* gan David Lack, a *Cuckoo* gan Nick Davies.

Roedd yn cadw ei nodiadau ar adeg pan nad oedd llawer wedi ei gyhoeddi am adar yn y Gymraeg, heblaw colofn T.G. Walker yn *Yr Herald Gymraeg*. Ond er mai un o Fôn oedd Harri Williams yn wreiddiol, nid oes sôn iddo gyfarfod â Walker na'r Ted Breeze Jones ifanc oedd yn cychwyn ar ei yrfa adaryddol ar y pryd.

Mae ei enwau ar rai adar yn ddifyr dros ben - enwau lleol oedd yn gyffredin yn y cyfnod cyn i Ted Breeze a Peter Hope safoni'r enwau Cymraeg yn eu cyfrol *Enwau Adar Cymru* yn 1973: er enghraifft, enwau fel 'llygad yr ych' am 'pibydd y mawn', 'hutan y dŵr' am 'cwtiad y traeth', 'morhedydd' am 'cwtiad torchog', a 'sogiar' am 'socan eira'.

## Ein taith gyntaf ers blynyddoedd!

Pan gynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ym Mhlas Tan y Bwlch ddechrau Tachwedd, penderfynwyd y byddem yn ailgydio yn ein teithiau, ac felly, ychydig cyn y Nadolig, daeth nifer o aelodau ynghyd i fynd ar daith yn ardal Porthmadog.



Er nad oedd rhagolygon y tywydd yn dda, a bod yna law ac eirlaw ar y ffordd, cawsom gychwyn mewn tywydd eithaf pleserus. Yr oedd pawb yn hynod falch o allu gweld ffrindiau unwaith eto, a chlywed eu hanes dros y

tair blynedd ddiwethaf. Ond yr oedd hiraeth hefyd wrth gofio am y selogion a gollwyd – selogion oedd hefyd yn ffrindiau mynwesol.


Cychwyn'som drwy fynd o gwmpas Cob Crwn. Yr oedd yr awyr yn oer a llonydd, a mwg y trên bach yn gadael rhuban hir wrth groesi'r cob am Finffordd.

Gan ei bod hi'n agos at benllanw, doedd dim llawer o fwd ar gyrion y dŵr yn Llyn Bach, ac felly, dim cystal sioe ag arfer o adar yn bwydo yno. Ond ar ochr Llyn McAlpine, yr oedd yr afon wedi gorlifo ar ôl y glaw ac eira, a'r tir wedi rhewi'n gorn. Ac yno, yr oedd mwy o adar yn disgwyl yn eiddgar am eu cyfle i hel eu tamaid.

Yr oedd nifer o **rostogion cynffonddu** yn loetran yn ddisgwylgar wrth ymyl **gwylan benddu** nad oedd ei henw'n gweddu o gwbwl iddi yr adeg hon o'r flwyddyn!



Yn sydyn, gwibiodd pâr o **hwyaid ddanheddog** ar draws ein golygfa, a glanio ar yr afon. Y ceiliog sydd ar y chwith yn y llun, a'r iâr sydd â'r pen browngoch ar y dde. Mae'r iâr yn reit debyg i'r hwyaden frongoch ond bod gan honno goler wen amlwg.



Yn y nant fechan oddi tanom, gwelsom iâr **hwyaden wyllt** yn nofio heibio'n hamddenol braf. Mor ddi-nod o'i chymharu â'r ceiliog, ond ei chuddliw'n berffaith yng nghanol y tyfiant ar hyd y glannau.



Dafliad pluen sgota oddi wrthi, roedd yna



olwg ddigon rhynllyd a sarrug ar **grëyr bach** a ddisgwyliai i lenwi ei gropa yntau. Hyd yn weddol ddiweddar, fe fyddai hwn wedi bod yn aderyn anarferol iawn yma, ond erbyn hyn, mae nifer dda o'i dylwyth yma drwy'r flwyddyn.

Yn ôl ar lannau Llyn Bach, yr oedd amryw o **bibyddion coesgoch** yn hel eu tamaid; ac yn morol am eu diogelwch eu hunain yng nghanol y pwll, yr oedd haid o **chwiwellod** deniadol dros ben.



Bob hyn a hyn, caem gip ar **wyach fach** yn mentro i'r wyneb ar ôl plymio am bryd, ac ar un o'r pibellau sy'n rhedeg dan bont yr harbwr, cawsom olwg ardderchog ar **siglen lwyd** yn arddangos ei melynder llachar i ni, gan droi ei thin tuag atom, yn y diwedd, i ddangos patshyn bach arall o'r un lliw yn union.



Pan ddaeth yn amser i ninnau hel ein tamaid, fe gododd y gwynt, tewychodd y cymylau, a chriw bach yn unig o wroniaid a aeth ymlaen i wynebu'r elfennau ym Mhorth y Gest.

Pleserus iawn oedd cael gwylio adar unwaith eto yng nghwmni ffrindiau.



*Lluniau: Huw Dafydd a Gareth Jones*

**Gweithgareddau:**

Y penderfyniad a gafwyd yn Nhan y Bwlch oedd peidio â chynnig cynifer o deithiau eleni. Nid ydym, felly, yn cyhoeddi rhaglen am y tymor. Un daith yr edrychir ymlaen ati yw taith i **Martin Mere** er cof am Dewi Jones (Blaenau). Gobeithir trefnu bws i fynd yno yn gynnar yn y gwanwyn, a chewch wybod y manylion drwy e-bost yn fuan iawn.

Os byddwch yn gweld rhywbeth diddorol yn eich ardal neu am gynnig arwain taith i rywle, rhowch wybod i gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk os gwelwch yn dda, fel y gallwn roi gwybod i aelodau eraill.